**CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNLLUNIO** a gynhaliwyd ar ddydd Mercher 21ain Rhagfyr 2016 yn Siambr y Cyngor, Canolfan Gymunedol Wellington, y Rhyl ar ôl cyfarfod y Cyngor.

**YN BRESENNOL**

Y Cynghorydd Mrs W. Mullen-James (Cadeirydd)

Y Cynghorwyr Mrs. E.M. Chard, Ms. J. Hughes, A. R. James, Ms J. McAlpine, S.H. Ratcliffe, Miss S.L. Roberts, A.J. Rutherford, Miss R. Siddall, T. Thomas a'r Parchedig S. Walker

Mr G. J. Nickels – Clerc y Dref

Hefyd yn bresennol: Y Cynghorydd B. Blakeley

**40. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran y Cynghorydd B. F. Moylan (yn sâl).

**41. CEISIADAU CYNLLUNIO**

Ystyriodd yr Aelodau y Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd, fel y dangosir isod a ***PHENDERFYNWYD*** *fel y nodir arnynt nawr.*

**Nodyn 1:** Hysbysir yr Awdurdod Cynllunio Lleol bod Cyngor Tref y Rhyl eisiau datgan, lle'n briodol, bod gofyn i'r holl geisiadau a restrir isod sy'n ymwneud â lleoliadau megis swyddfeydd, siopau ac archfarchnadoedd, osod arwyddion dwyieithog sy'n adlewyrchu natur ddwyieithog ardal y Rhyl.

**Nodyn 2:** Dywedodd/Ail-ddywedodd yr Aelodau canlynol sydd hefyd yn gwasanaethu ar Gyngor Sir Ddinbych eu bod, wrth gymryd penderfyniadau ar y ceisiadau, yn gwneud hynny ar sail yr wybodaeth a oedd ger eu bron nawr ac os oedd angen ystyried y ceisiadau yng Nghyngor Sir Ddinbych, y byddant yn edrych ar y ceisiadau o'r newydd yn seiliedig ar yr wybodaeth a fydd ar gael bryd hynny, ac oherwydd hynny efallai y byddant yn dod i benderfyniad gwahanol arnynt.

Y Cynghorydd A.R. James
Y Cynghorydd Mrs. W. Mullen James

| CEISIADAU CYNLLUNIO | |
|---|---|
| 41.1 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 450 Ffordd Arfordir y Rhyl, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Brynhedydd<br><br>**Rhif Y CAIS:** 45/2016/1167<br><br>Estyniad un llawr ar yr ochr ac yn y cefn i ffurfio ystafell haul ac estyniad ystafell aml-bwrpas. |

| | |
|---|---|
| | Yr ymgeiswyr yw Mr. a Mrs. C Goodwin o'r un cyfeiriad.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 41.2 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 15 Lon Mafon, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Tynewydd<br><br>**Rhif Y CAIS:** 45/2016/1190<br><br>Adeiladu estyniad i dŷ annedd.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. Simon Wright o'r un cyfeiriad.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 41.3 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** The North 27 Ffordd Wellington, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**Rhif Y CAIS:** 45/2016/1166<br><br>Adeiladu estyniad i loches smygu.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. Robin Jones o'r un cyfeiriad.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 41.4 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 28 Vale Road, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**Rhif Y CAIS:** 45/2016/1176<br><br>Newid defnydd o siop A1 i le bwyd a diod A3, gosod system echdynnu a simnai, arwyddion siop a newidiadau i gynllun y llawr cyntaf a'r fynedfa.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. K. Aslan, 10 Watergate Crescent,<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |

| | |
|---|---|
| 41.5 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 28 Vale Road, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Cefndy<br><br>**Rhif Y CAIS:** 45/2016/1177<br><br>Gosod arwydd ffasgia gyda golau mewnol.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mr. K. Aslan, 10 Watergate Crescent,<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |
| 41.6 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** Tir yn Ne-ddwyrain y Rhyl rhwng Bro Deg a Dyserth Road, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Trellewelyn<br><br>**Rhif Y CAIS:** 45/2016/1065<br><br>Amnewid mathau tai ar leiniau 189,199, 205, 207, 217, 219 a 230 (diwygio cynllun a gymeradwywyd eisoes ar gyfer cyfnodau 2 a 3, rhif cyfeirio 45/2011/0766)<br><br>Yr ymgeisydd yw Anwyl Construction, Anwyl House, St. Davids Park, Ewlo.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Tra nad yw'r Cyngor Tref yn gwrthwynebu amnewid y mathau tai, maent yn parhau i fod yn bryderus ynglŷn ag effaith y datblygiad ar gyffordd Pan y Maes / Dyserth Road oherwydd cynnydd yn y llif traffig ac yn gofyn bod y Cyngor Sir yn defnyddio unrhyw bwerau sydd ar gael iddo i ddelio â'r mater. |
| | |
| 41.7 | **LLEOLIAD Y SAFLE:** 135-141 Stryd Fawr, y Rhyl.<br><br>**WARD:** Bodfor<br><br>**Rhif Y CAIS:** 45/2016/1162<br>45/2016/1163<br><br>Trosi ac ailwampio i ddarparu lle busnes a siop.<br><br>Yr ymgeisydd yw Mrs. Hannah James, 3 Conwy Street, y Rhyl.<br><br>**PENDERFYNIAD**: Dim gwrthwynebiad |
| | |

**42. <u>TERFYNU'R CYFARFOD</u>**

Gan nad oedd unrhyw fusnes pellach, datganodd y Cadeirydd bod y Cyfarfod wedi dod i ben.

Llofnod: ……………...…………

Dyddiad**:** **………………………...**